

CYLCHLYTHYR

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

RHIF 7 – PASG 2006



CAMBIG AR Y FORYD –

ADERYN PRIN YN CAEL EI WELD AR DAITH Y GYMDEITHAS!



Llun HDJ

HEFYD YN Y RHIFYN HWN –

- Y TELOR PENDDU
- ADAR ALBINO
- AHNE PEN LLŶN

A LLAWER, LLAWER MWY!

ER BUDD ADAR A BYD NATUR

LLYGAD BARCUD

Golygyddol

Wel, ydy'r hen got fawr drom yna wedi mynd yn ol i'r cwpwrdd erbyn hyn?! Ie wir, dyma wanwyn arall ar ddechrau, er ei bod wedi parhau yn weddol oer am yr adeg hon o'r flwyddyn – da o beth fyddai cadw'r got wrth law am dipyn oherwydd fel y gwyddoch 'haul y gwanwyn, gwaeth na gwenwyn!'

Erbyn hyn wrth gwrs mae adroddiadau am adar mudol yn cyrraedd ein glannau yn amlhau bob dydd. Clywais fy nhelwr yr helyg cyntaf ar y 10fed o Ebrill, ac mae adar eraill fel y siff saff wedi bod yma ers tro bellach – yn wir, derbyniais nodyn gan Gerallt Pennant gyda'r llun gwych yma o siff saff a oedd yn ei ardd ym Mhorthmadog ar y 18fed o Chwefror!



Braf hefyd oedd gweld y gwenoliaid yn dychwelyd ddechrau Ebrill – erbyn hyn mae'r gwenoliaid y bondo, gwenoliaid y glennydd oll wedi cyrraedd hefyd – a rhyw fis arall a bydd y gwenoliaid duon yma hefyd. Mae tinwen y garn a mwyalchen y mynydd i'w cael yn yr ucheldir, a deallaf fod rhyw bar o welch enwog yn barod wedi dodwy 5 ŵy! Heb os mae hwn yn amser cyffrous eithriadol o'r flwyddyn, da chi ewch allan i'w fwynhau. Mae côr y wig ar ei anterth ar hyn o bryd, ond buan iawn y bydd yn tawelu, ac anoddach fyth fydd hi i weld yr adar man heibio'r trwch o ddail gwyrdd ffres fydd ymhobman

Gobeithio y bydd y rhifyn hwn o Llygad Barcud yn rywfaint o ysgogiad i chi anelu am y drws gyda'ch gwyrddau, i weld beth sydd i'w weld! [GOL]

Manteision ymaelodi â Chymdeithas Ted Breeze Jones.

Bob blwyddyn bydd aelodau'r Gymdeithas yn derbyn tri rhifyn o'r cylchlythyr **Llygad Barcud**. Cyn hir, byddwch fel aelodau yn derbyn cerdyn aelodaeth er mwyn dangos eich bod yn aelod. Yn ogystal a chael mynychu'r sgysiau a theithiau'r gymdeithas yn ddi-dâl, un o fanteision newydd aelodaeth y Gymdeithas yw y bydd y cerdyn hwn yn caniatáu i chi gael gostyngiadau sylweddol o'r siopau isod –

- **Cotswold Outdoor**, Betws y Coed – 15%
- **Gelert**, Port – 15% ar nwyddau Gelert, 10% ar nwyddau eraill
- **Siop lyfrau Browsers**, Port – 10%
- **Fifth Element**, Port – 10%
- **Bear Print**, Port – 10%
- **Nigel Hughes**, Port – 10% (ar wahan i gamerau digidol – prisiau cystadleuol eisoes!)
- **Arwyn Edwards**, Penrhyndeudraeth – 10% ar wydrau a nwyddau eraill

Y trochydd mawr a llawer mwy -

Aberdesach, Pontllyfni a'r Foryd.

Dydd Sadwrn, Mawrth 11^{eg} 2006

Huw Dafydd Jones

Taith maes, yng nghwmni yr adarwr Rhys Jones, i chwilio yn arbennig am y trochydd mawr ym Mae Caernarfon. Ymlaen wedyn i weld adar cyffredin y traeth a'r morfa yn Ninas Dinlle cyn diweddu'r daith gyda'r rhydyddion a'r hwyaid ar y Foryd.



Criw bychan ddaeth ynghyd ar y Sadwrn hwn i ymuno â Rhys i chwilio am y trochydd mawr ym Mae Caernarfon. 'Roedd ambell un wedi clywed ysgrifennydd y Gymdeithas yn sôn am y daith y bore hwnnw ar raglen Gerallt Pennant, 'Galwad Cynnar', ac wedi penderfynnu bod yma gyfle rhy dda i'w golli. Wrth i'r aelodau gyrraedd y maes parcio yn Aberdesach roedd yn amlwg fod Rhys wedi bod yno ers peth amser gan ei fod yn barod wedi darganfod nifer o wahanol fathau o hwyaid a throchyddion allan ar y môr, ynghyd â'r amrywiol wylanod a rhydyddion ar y traeth.

Un aderyn bychan, tywyll ei gorff a'i goesau, a dynnodd ein sylw yn hedeg ar hyd llinell y llanw llawn oedd corehedydd y graig (*Anthus petrosus*). Allan ar y môr gwelwyd gwylanod y penwaig a chefnudd (*Larus argentatus a fuscus*), bilidowcar (*Phalacrocorax carbo*), mulfran werdd (*Phalacrocorax aristotelis*) hwyaid brongoch (*mergus serrator*) a heidiau o chwiwell (*Anas penelope*). Cafwyd cip ar un trochydd gyddfgoch (*Gavia stellata*) yn y tonnau


a'i adnabod oddiwrth osgo ei big, oedd ar i fyny. 'Roedd y trochyddion mawr yno hefyd, ond ymhell o'r lan ac i gyfeiriad Pontllyfni, ac felly dyma godi pac a theithio ymlaen i Bontllyfni

Y trochydd gyddfgoch (red throated diver, *Gavia stellata*) yw'r lleiaf o'r pedwar math o drochydd ac mae'n debyg mai hwn yw'r mwyaf cyffredin. Gellir ei wahaniaethu yn y gaeaf oddi wrth y trochydd gyddfddu (black throated diver, *Gavia arctica*), yn bennaf wrth edrych ar osgo'r pig, maint y fron a lliw y gwddf. Tra bo gwddf y trochydd gyddfgoch bron i gyd yn wyn dim ond blaen gwddf y trochydd gyddfddu yn unig sy'n wyn. Mae talcen onglog a chorun fflat gan y gyddfddu yn ogystal.

Gweld y trochydd mawr (*Gavia immer*) oedd bwriad y daith heddiw gan ein bod yn annhebygol iawn o weld y pedwerydd math o drochydd, sef yr un pigwen (yellow billed, *Gavia adamsii*). Mae hwn yn nythu ar arfordir Arctig Rwsia ac yn gaeafu ar arfordir gogleddol Norwy.

Y Trochydd Gyddfgoch
oedolyn - gaeaf


Pig ar i fyny. Talcen slip/fflat



Gwddf bron i gyd yn wyn

Talcen syth a chorun fflat

Pig lefel llwydwyn




Hanner coler dywyll a
chornel wen uwch ei ben

Lluniau HDJ

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae adarwyr wedi sylweddoli fod heidiau mawr o'r trochydd mawr (*Great Northern Diver - Gavia immer*) yn casglu at ei gilydd yn y gwanwyn ym Mae Caernarfon ar eu ffordd o Ewrop i nythu yn ynysoedd yr Iâ, yr ynys Werdd a Gogledd Canada. Yng ngogledd America fe'i adnabyddir fel y *Loon*. Mae'n aderyn eitha mawr o ran maint, yn mesur rhwng 2½ - 3 troedfedd (72-88cm) o hyd, a chyda lled adenydd o thua pedair troedfedd a hanner (122-148cm). Yn weddol ddiweddar y sylweddolwyd fod y trochydd yn treulio cyfnod o'r gwanwyn ym Mae Caernarfon - oherwydd fod nifer a safon yr offer arsyllu, yn finociwlers a sbienddrychau, sydd

erbyn heddiw ym meddiant adaryddwyr cyffredin wedi gwella'n aruthrol, fel ei bod yn haws i adnabod yr hyn a welwyd ynghynt fel dim mwy na smotiau duon ar y môr.

Wrth gerdded o'r maes parcio ym Mhontllyfni ar hyd glannau afon Llyfni tuag at y môr gwelwyd nifer o wahanol adar gan gynnwys bras y cyrs (*Emberiza schoeniclus*). 'Roedd gweld yr aderyn bach yma yn canu ar frig corsen yn arwydd sicr fod y gwanwyn yn gry' yn y llecyn hwn ar y bore Sadwrn yma. Cyfeiriwyd y gwydrau tua'r môr, ac yno 'roedd y trochyddion mawr yn eu degau. Gwelwyd, yn ôl cyfrif Rhys, gyfanswm o 49 ohonynt allan ar y môr.



Gwelwyd cyfanswm o 49 trochydd mawr allan ar y môr ger Pontllyfni. Dyma dri

Llun HDJ

Ymlaen o Bontllyfni i Ddinas Dinlle a manteisio ar y ddau gynefin bob ochr i glawdd y traeth, y môr agored ar y naill law a'r morfa ar y llaw arall. 'Roedd ambell i drochydd mawr ar y môr, ond yr hyn a dynnodd ein sylw ar y morfa oedd yr haid o thua pedwar cant o ddrudwy (*Sturnus vulgaris*). Golygfa drawiadol iawn oedd gweld yr haid yn codi fel cwmwl organig ac yna'n

dychwelyd i'r ddaear i fwydo ymysg y defaid.

Ac fel defaid dyma'n mintai ninnau yn teithio at y Foryd, ac at y darn traeth rhwng y ddwy afon, y Carrog a'r Wyrfa. Yno'n rhydio ac yn nofio yn y pyllau bas gwelwyd casgliad o adar digon cyfarwydd megis hwyaid yr eithin (*Tadorna tadorna*), gylfinhirod

(*Numenius arquata*) a phibyddion coesgoch (*Tringa totanus*). 'Roedd yma greyr bach (*Egretta garzetta*) hefyd, yn pysgota'n osgeiddig ar hyd glan yr afon Carrog wrth iddi lifo dros y traeth. Â'r sbienddrychau yn edrych dros y traeth clywyd cân yn dod o'r llwyni wrth ein cefnau. O ail gyfeirio'r gwydrau at frig cangen yn y llwyni, gwelwyd bras melyn (*Emberiza citrinella*) â'i fron fraith a'i fwstas melyn.

Ymlaen wedyn drwy Saron a throi am y rhan o'r Foryd lle mae'r afon Gwyfai yn arllwys i'r môr. Gyferbyn â ni 'roedd trwyn a chastell Belan yn gwarchod ceg afon Menai. Adar cyfarwydd oedd yma eto, ond 'roedd Rhys yn ddigon craff i sylwi fod un aderyn anghyffredin yng nghanol grŵp bychan o hwyaid yr eithin. Yr aderyn oedd y cambig (*Recurvirostra avosetta*), Dyma mae'n debyg oedd uchafbwynt y diwrnod, ac er mwyn y profi a chofnodi ei bresenoldeb, dyma lun ohono.



Dymuna'r Gymdeithas ddiolch i Rhys am ddiwrnod bendigedig unwaith eto. Peidiwch a cholli'r cyfle i weld rhywbeth arbennig y tro nesaf y trefnir taith efo Rhys.

Glywsoch chi'r gog eto tybed?

Beth oeddech chi wrthi'n ei wneud ar y pryd? Oblegid mae yna lawer o goelion gwerin yn dweud fod eich amgylchiadau pan glywch y gog am y tro cyntaf yn arwydd o beth fyddwch chi'n ei wneud am y flwyddyn i ddod! e.e., pan glywch hi gynta:

- Gwnewch yn siwr fod gennych brês yn eich poced – tynnwch o allan a phoerwch arno (neu ei droi drosodd yn eich llaw os ydach yn sidêt.) Ar y llaw arall, os nad oes gennych arian – tlawd fyddwch chi am y flwyddyn. [Peidiwch benthg prês i neud hyn – neu mewn dyled fyddwch chi!]
- Gwnewch yn siwr eich bod yn sefyll ar borfa las – bydd hynny'n sicrhau y byddwch yn fyw i'w chlywed y flwyddyn nesa. Os ydych chi ar goncrit neu garreg – efallai na fyddwch chi!
- Os ydach yn eistedd – codwch a gwnewch rywbeth – neu diog fyddwch am weddill y flwyddyn!
- Anlwcus ydi ei chlywed hi yn eich gwely – siawns mai sâl/gorweddog fyddwch chi am y flwyddyn. I osgoi hynny trowch – yn reit sydyn – a rhowch sws i'r gŵr/wraig neu pwy bynnag sy'n y gwely hefo chi – o leia fe gewch chi fywyd carwriaethol go lew am flwyddyn gron gyfa!
- Dywed rhai ei bod yn anlwcus ei chlywed hi cyn brecwast – am mai stumog wag fydd gennych am weddill y flwyddyn.
- Bydd babanod a gaiff eu geni ar y diwrnod y clywir y gôg gynta yn cael bywyd lwcus.

Newid Byd i'r Telor Penddu

Dewi Lewis

O holl aelodau teulu'r teloriaid, y telor penddu yw'r mwyaf tebygol o ymddangos yn eich gardd. Yn draddodiadol ystyriwyd y telor penddu fel ymwelydd yr haf i Brydain ac Iwerddon ond dengys ymchwil diweddar ei fod yn defnyddio gerddi fel safleoedd bwydo fwy fwy yn ystod yr hydref a'r gaeaf. Dros y ddegawd diwethaf cafwyd cynnydd amlwg yn niferoedd y telor penddu yn gaeafu ym Mhrydain ac Iwerddon.



Llun - Bryan Thomas

Ceir dau gyfnod allweddol yn ystod y flwyddyn pan fo'r telor hwn yn ymweld a'n gerddi. Y cyfnod cyntaf yw Gorffennaf, Awst a Medi. Dyma'r cyfnod pan ddaw'r cywion sydd wedi eu magu yma i'n gerddi gan gyfarwyddo eu hunain gyda'u hamgylchedd. Yn ystod y cyfnod yma o nythu a magu cywion tuedda'r adar fwydo ar bryfetach a thrychfilod. Credir fod y boblogaeth sy'n magu yma ym Mhrydain yn mudo tua'r de i ogledd yr Affrig yn ystod y gaeaf.

Yr ail gyfnod allweddol yw misoedd Hydref a Tachwedd pan amcanir y daw hyd at 10,000 o deloriaid

penddu i'n gerddi ym Mhrydain o'u safleoedd magu yng nghanolbarth Ewrop – yr ardal i'r gogledd o'r Alpau sef de'r Almaen ac Awstria. Dengys ymchwil nad adar wedi magu yma ym Mhrydain yw'r adar yma ond yn hytrach bron y cyfan yn aelodau o'r boblogaeth o Ewrop.

Mewn gwirionedd tybir eu bod wedi datblygu patrwm newydd o fudo sydd yn golygu nad ydynt yn gorfod mudo mor bell i'r de i gyfeiriad gogledd yr Affrig yn ystod y gaeaf. Yn nhermau dynol mae hyn gyfystyr a newid lleoliad gwyliau. Golyga hyn fod llawer mwy o'r rhywogaeth yn

goroesi'r gaeaf ac yn cynyddu'r boblogaeth Ewropeaidd. Yn ôl arbenigwyr mae'r patrwm 'newydd' yma o fudo wedi datblygu o fewn cyfnod byr iawn. Dengys ymchwil bod y reddf i ymfudo o ganolbarth Ewrop tua'r gorllewin yn esblygu ac yn cael ei basio ymlaen i'r cywion o fewn tair i bedair cenhedlaeth – hynny yw o fewn tair i bedair mlynedd (Sawl blwyddyn a gymerodd i ni ddysgu sefyll ar ein traed?!). Tuedda'r adar hyn aros yn ein gerddi am gyfnod o tua tri mis. Yn ystod y cyfnod yma tuedda'r adar i fwydo ar amrywiaeth eang o fwydydd gan gynnwys cnau mwnci. Eu hoff fwyd yn ystod y cyfnod yma yw ffrwythau – afalau yn bennaf ond fe geir ffefrynnau lleol megis ffrwythau sych, caws a siwet.

Yn ystod y ddau aeaf diwethaf (2004-05 a 2005-06) mae Ymddiriedolaeth Adaryddia Prydain (BTO) wedi bod yn cynnal arolwg o'r teloriaid sydd yn gaeafu yma ym Mhrydain - nid yn unig y telor penddu ond hefyd y siff-saff a thelor yr helyg. Fe fydd canlyniadau'r arolwg yn ddiddorol, inni gael gweld maint y cynnydd a fu ers yr arolwg diwethaf. Mae nifer helaeth o'r teloriaid penddu a welir yma yn ystod y gaeaf wedi eu modrwyo ac mae hyn yn ei gwneud yn haws i ddarganfod lle'u magwyd a'u symudiadau yn ystod y tymhorau.

Yn sicr mae gaeaf 2005-06 wedi bod yn aeaf da i weld a chofnodi y telor penddu nid yn unig yn yr ardd ond hefyd yn gyffredinol allan yn y wlad. 'Rwyf wedi cael degau o bobl yn dod ataf i ddweud eu bod wedi gweld neu gofnodi'r aderyn 'anarferol' yma yn eu gerddi. O'r disgrifiadau roedd yn

amllwg mai telor penddu yr oeddynt wedi ei weld. 'Rwyf wedi cofnodi telor penddu allan yn y wlad ar sawl achlysur yn ystod y gaeaf - a hynny'n amlach yn ystod y gaeaf yma na unrhyw aeaf arall yn ystod y ddegawd diwethaf.

Er mai telor penddu yw'r enw a roddir i'r aderyn, mewn gwirionedd dim ond y ceiliog sydd â chap du. Cap brown sydd gan yr adar ifanc a'r ieir. Dim ond ar ddiwedd eu hydref cyntaf y bydd y ceiliogod yn datblygu'r cap du. O'u gweld yn y maes mae'r ceiliog a'r iâr yn adar prydfferth dros ben ac yn tynnu'r sylw yn syth – golygfa i gynhesu unrhyw aeaf! Ac nid eu hymddangosiad yn unig sydd yn dal sylw – arhoswch i chi glywed y gân. Mae clywed cân y ceiliog yn ystod y gwanwyn yn werth chweil a chystal ag unrhyw eos!



Plas Tan y Bwlch

Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri

Pob llwyddiant i

Gymdeithas Ted Breeze Jones

ac i

LLYGAD BARCUD

Holwch am raglan o'r cyrsiau byd natur yr ydym yn eu cynnig, neu am ein darpariaeth i grwpiau / cymdeithasau ymweld gyda'r nos am bryd bwyd a thro rownd y gerddi

Am ragor o wybodaeth a rhaglen lawn ffoniwch:
01766 772600

Coed ac adar Lledrod

Gwilym Tudur

Plwyf a phentref gwledig yn y brynau rhwng Tregaron ac Aberystwyth yw Llanfihangel Lledrod ac er ei fod yn nannedd gwynt y gorllewin (neu efallai oherwydd hynny) mae'r hinsawdd yn lled fwyn ac amrywiaeth o goed neu llwyni tal yn ffynnu yma.

Ceir pedwar gwrych sylfaenol yn tŷ ni: drain a choed cymysg ar hyd clawdd ferm Penlan, ffawydd ar ffiniau Stâd Brynwyre, yswydd (*privet*) ar glawdd y lôn, a gwrych mewnol *cotoneaster*. Wedi byw yma am 30 mlynedd, gadewais i fân goed yn y rhain dyfu'n goed iawn o amgylch yr ardd ffrynt a'r ardd gefn. Maent yn cysgodi'r llysiâu braidd yn y cefn, ond mae'r holl goed a llwyni yn rhoi bwyd a diogelwch i lawer o adar.

Dyma restr o'r coed, heb gyfri'r llwyni, a geir yn ein libart ni ar hyn o bryd, llawer ohonynt wedi eu hadu eu hunain neu eu plannu cyn ein hamser ni:

- Derwen
- Ffawydden
- Bedwen
- Onnen
- Masarnen (Sycamorwydden)
- Llarwydden (*Larch*)
- Draenen ddu
- Draenen wen
- Criafolen
- Collen
- Afallen
- Gellygen
- Eirinen
- Ysgawen
- Llawryfen (*Laurel*)
- Cypreswydden

Tua'r Nadolig byddaf yn cofio nad wyf byth wedi plannu celynnen!

Mae yna biswydden (*Euonymus europaeus* – *Spindle tree*) hefyd, ac rwy'n eithaf balch o hon, sydd yn ei llawn dwf. Mae'n debyg bod mynd garw arni gynt pan oedd angen pric main gwydn fel gwiallen, cigwain, pig

dannedd ac ati, a phegiau o bob math, achos y goeden fach osgeiddig a diddorol yma yw'r galetaf odid o bob pren yn y wlad. Cefais brawf o hynny'n gynnar wrth geisio llifio cangen isel, wedi ymdrechu gymaint nes i mi losgi '*Black & Decker*' bach fy nghymydog yn ddu bitsh!

Fel chwithau gobeithio bûm ers blynyddoedd yn bwydo adar efo hadau, cnau, saim a sbarion y gegin, yn enwedig yn y gaeaf. (Ond rwy'n deall y dylem hepgor ymhél â bwrdd adar a chafn dŵr pan ddaw'r fflw adar atom!)

Rheswm arall dros ddenu amrywiaeth o adar acw'n ddiweddar ydyw bod y gath wedi marw! Roedd y gath ddu a gwyn, Moses, yn bencampwr yr ardal – daeth a robin, goch, iâr mwyalchen a gwennol y bondo (ie!) i'r gegin i gyd yr un haf. Roedd hi'n bws ddel ar glustog yn ei hamser sbâr. Mae'n dda gen i ddweud bod fy ngwraig heb gael un arall, yn groes iawn i'w hewyllys, hyd yn hyn!

Dyma rai adar a welais o gwmpas y tŷ, heb gadw cofnodion iawn ond nodi ambell un yn y dyddiadur poced a'i ychwanegu at y rhestr. Daeth dros 40 heibio, yn cynnwys:

- Ysgrech y coed
- Titw cynffon hir
- Titw'r helyg
- Dringwr bach
- Delor y cnau
- Cnocell fraith fwyaf
- Telor yr helyg
- Telor penddu
- Tingoch
- Corhedydd y waun

- Socan eira
- Coch dan adain
- Cudyll glas (unwaith – yn bwyta llwyd y gwrych anffodus reit o flaen ffenest y gegin, gan ei ddal dan un droed a'i bluo'n daclus efo'i big llym).

Daeth y pila gwyrdd a'r durtur dorchog yn gyffredin iawn yn y cyfnod diweddar – a'r barcud uwchben wrth gwrs.

Yng ngodre'r pentref ac am saith milltir i'r môr yn Llanrhystud, mae Cwm Wyre fel mini-goedwig gysefin. Rhyngom a'r lle nesaf (Bronant) mae rhostir eang Rhos y Wlad a phlanhigfa fechan a llyn saethu yn denu rhydyddion, hwyaid a hebogiaid. Led cae y tu ôl i ni ceir pwt o gors sy'n bwysig am bod y gylfinir yno o hyd, a'r gog i'w chlywed o'r helyg – bob blwyddyn ond eleni. Yna heibio'r tŷ ar lôn yr ucheldir i Dynygraig cyfyd gallt o ffawydd tal a phinwydd ar lain hir o dir comin, gallt a blannwyd i gadw'r sipsiwn draw meddan nhw. Enw'r rhiw serth ar lafar gyda'r llaw yw 'lan i'r maen' – nid y maen trigbwynt cyfoes 900' ar y top (ar y dde) a olygir, ond yn hytrach Llech Mihangel, maen hynafol ar ei hyd rywle ar y chwith, y ceir cofnod ohono ond sydd erbyn hyn yn anffodus wedi diflannu. Dyma gynefin adar y bryniau – ffridd Comins Penbanc ar un llaw ac ar y llall mawnog a phlanhigfeydd o Fryngarw i Frynseir, man geni B. T. Hopkins, awdur *Rhos Helyg*.

Dyma rai adar eraill y cofnodais eu gweld yn y cyffiniau hyn, ym mhlith rhai arferol maes, llyn a mynydd:

- Siglen lwyd
- Pinc y mynydd
- Telor yr ardd
- Llwydfron
- Brych y coed
- Cornchwiglen
- Grugiar
- Petrisen
- Cyffyllog
- Giach
- Tylluan wen

- Boda tinwyn
- Hebog tramor
- Gwylan gefnddu fwyaf.

Ac eithrio'r boda tinwyn (sydd o gwmpas yn y gaeaf), dim byd anarferol iawn felly am wn i – heb wyllo'n rhy ddyfal na mynd i 'dwitchio' – ond amrywiaeth ddifyr serch hynny.

Pan ddaethom yma gyntaf ym 1976 cofiaf sylwi mor llwm o goed oedd y caeau o'i cymharu â lawr yn nyffryn Ystwyth, a'm hardal enedigol, Eifionnydd (dwy fro efo hen blasau). Ond yn y fro yma heddiw gwelaf goed a chloddiau tewfrig ym mhob man – hynny yw, choelia'i nad yw'r wlad yn fwy coediog o lawer nag ydoedd genhedlaeth yn ôl. Os felly, pam? Llai o losgi coed tân? Llai o blygu gwrych? Mwy o blannu a mwy o lonydd i goed? Yn bennaf, efallai, y gaeafau tyner a'r tywydd gwlyb – y 'cynhesu byd-eang' bondigrybwyll? Dyna newyddion da i ran o'n bywyd gwyllt felly, er bod pryder cynyddol am dynged y gweddill – fel rhai o blanhigion y mynydd – a rhai Arctig-Alpaidd sydd bellach ond yn crafu bywoliaeth ar greigiau diarffordd.

Llygad... gwennol?!

Wyddoch chi fod yna hen goel fod y wennol yn gweld yn eithriadol o dda – mae'n debyg fod yn rhaid iddi i fedru dal pry ar y fath gyflymdra!

Y rheswm pam, yn ôl y Groegiaid, ydy' ei bod hi'n iro llygaid y cywion efo sug melyn y Melynlllys, neu Llysiâu'r Wennol (*Greater Celandine* yn Saesneg a *Chelidonium majus* yn Lladin – *Chelidonium* o Chelidon sef yr enw Groegaidd am wennol).

Ond peidiwch da chi a mentro'r sug melyn ar eich llygaid – mae o'n llosgi – dyna pam y'i defnyddir o i ladd dafaden ar y croen!

Arolwg o adar y gaeaf ym Mhortmeirion

Huw Dafydd Jones, Twm Elias a Rhodri Dafydd



Daeth rhyw ddwsin o aelodau at eu gilydd ym Mhortmeirion ar fore digon oer ond sych ar ddydd Sadwrn, Chwefror yr 11eg 2006, i gymryd rhan mewn arolwg o adar 'y Gwyllt' Portmeirion. Hwn oedd y cyntaf o ddau arolwg mewn gwirionedd – un yn nhymor y gaeaf a'r llall yn y tymor nythu. Rhannwyd yn dri grŵp, ac wedi gair o eglurhad am amcan y gwaith mewn llaw, aeth y grŵpiau drwy'r gerddi ar hyd tri llwybr gwahanol; llwybrau a oedd wedi eu marcio ar fap gan y Pen-garddwr Russell Sharpe.



Bwriad yr arolwg yw cael amcan o'r mathau a'r niferoedd o adar sy'n magu neu yn defnyddio 'Y Gwyllt', Portmeirion ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Gwneir hyn drwy gerdded rhai o llwybrau'r 'Gwyllt' a mapio yn fanwl ymhle y gwelwyd unrhyw adar, a'u niferoedd, gan ddefnyddio system

gofnodi debyg i'r un a ddefnyddir yng nghynllun BBS ('Breeding Bird Survey') y BTO. Yma ceir canlyniadau cyfrif Mis Chwefror. **Cynhelir ail ran y cyfrif ar ddydd Sadwrn Mai y 6ed, pryd y byddwn yn cyfarfod ym maes parcio Portmeirion am 10.30 y.b.** Mae croeso i bawb ymuno â ni i gymryd rhan yn y gwaith diddorol a phwysig hwn. Bydd yn gyfle i'r rhai ohonoch weld sut mae cyfrifon 'gwyddonol' o'r fath yn digwydd – dan arweiniad adarwyr mwy profiadol – a chewch weld fod arolygu fel hyn yn hwyl yn ogystal a bod yn ddefnyddiol!

A byddwch yn barod am yr annisgwyl! Gwelodd dau o'r grŵpiau Ddyfegi – yn chwarae yn braf mewn pwll ger y goleudy ac yn agos iawn atom. Rhyfeddod yn wir, a hithau yn fuan wedi canol dydd!

Cymdeithas Ted Breeze Jones

Arolwg Adar Porthmeirion, Chwefror 11fed, 2006

	Côd BTO	Rhodri	Twm	Huw	Cyfanswm
Yn y Gwyllt					
Mwyalchen (Blackbird)	B	8	6	1	15
Titw tomos (Blue tit)	BT	3	4	2	9
Bran dyddyn (Carrion crow)	C	2	9	2	13
Titw penddu (Coal tit)	CT	1	1	-	2
Jibinc (Chaffinch)	CH	1	1	-	2
Eurben (Goldcrest)	GC	2	1	-	3
Cnocell fr fwya (Gt Sp Woodpecker)	GS	2	1	-	3
Titw mawr (Great tit)	GT	2	1	1	4
Titw gynffon hir (Long Tailed Tit)	LT	6	-	-	6
Delor cnau (Nuthatch)	NH	1	-	-	1
Dringwr bach (Trecreeper)	TC	1	-	-	1
Sguthan (Woodpigeon)	WP	1	-	-	1
Dryw (Wren)	WR	4	-	-	4
Robin goch (Robin)	R	-	6	2	8
Cigfran (Raven)	RN	-	2	2	4
Siglen lwyd (Grey Wagtail)	GL	-	1	-	1
	Cyfanswm:	34	33	10	77
Yn yr Aber					
Chwiwell (Wigeon)	WN	-	80	-	80
Hwyaden wyllt (Mallard)	MA	-	2	2	4*
Hwyaden yr eithin (Shelduck)	SU	2	2	2	6*
Alarch dof (Mute Swan)	MS	-	-	6	6
Pioden y môr (Oystercatcher)	OC	30+	330	214	574*
Coesgoch (Redshank)	RK	-	-	21	21
Gylfinir (Curlew)	CU	-	1	27	28
Gwylan benddu (Bl Hd Gull)	BH	-	2	-	2
Gwylan y gweunydd (Common Gull)	CM	-	-	2	2
Gwylan benwaig (Herring Gull)	HG	-	2	4	6
Gwylan gefnddu fwya' (Gt BB Gull)	GB	-	2	3	5
Gwylan gefnddu leia' (Lesser BB Gull)	LB	-	-	4	4
Creyr glas (Grey Herron)	H	-	2	-	2
Creyr gwyn (White Egret)	ET	-	1	2	3
	Cyfanswm:	32+	424	287	743*
	Cyfanswm:	66+	457	297	820*

*Efallai bod rhai o'r adar wedi eu cyfri fwy nag unwaith, h.y. gan fwy nag un grŵp

D.S.: Ger y goleudy gwelodd Grwpiau Huw & Twm **Ddyfrgi** yn chwarae yn y pwll, tua 30 – 40 llath o'r lan . Buodd yno am gyfnod hir 12.00 – 2.0pm.

Tw m Elias, Mawrth 9fed, 2006

Pen-blwydd Hapus Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn

Sioned Jones

Dynodwyd rhannau o Benrhyn Llŷn yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn ôl yn 1956. Eleni, felly, mae'n hanner can mlwyddiant y digwyddiad pwysig hwnnw, ac yn achos dathlu! Mae tua chwarter y Penrhyn yn yr ardal ddynodedig, cyfanswm o 15,500ha, gyda'r rhan fwyaf yn dir arfordirol ond hefyd yn ymestyn i gynnwys yr ardal o amgylch Garn Fadryn.

Nid Llŷn oedd yr AHNE cyntaf fodd bynnag, i Benrhyn Gŵyr y mae'r anrhydedd hwnnw yn perthyn. O edrych ar ffeiliau hanesyddol mae'n ymddangos y bu cryn drafod ac anghydweld ynglŷn â'r bwriad i ddynodi ardal Llŷn; ac mae'n debyg i hynny arafu'r broses.

Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 a roddodd y sail ar gyfer dynodi mannau o dirlun a golygfeydd arbennig iawn yn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae'r AHNE yn gyfartal o ran gwerth cadwriaethol â'r Parciau Cenedlaethol ac mae'r gwaith o'u diogelu'r un mor bwysig. Prif bwrpas y dynodi yw gwarchod a gwella'r harddwch naturiol, sy'n cynnwys diogelu'r planhigion, bywyd gwylt a nodweddion daearyddol yn ogystal â nodweddion eraill sy'n ymwneud â'r tirlun. Mae pwyslais hefyd ar ystyried dylanwad dynol a gwarchod olion archeolegol, hanesyddol a phensaernïol.

Mae arfordir amrywiol a diddorol a thirlun hardd yn nodweddion amlwg iawn yn Llŷn ond mae llawer o rinweddau eraill yn cyfrannu at gymeriad unigryw'r ardal. Mae hefyd yn ardal hanesyddol gyfoethog, gydag olion archeolegol a hanesyddol amrywiol yn cynnwys caerydd Oes yr Haearn, olion hen ddiwydiannau ac adeiladau hanesyddol o bob math. Wrth gwrs

mae'r iaith a'r diwylliant Cymreig hefyd yn elfennau pwysig ac annatod o gymeriad yr ardal. Rhinwedd arall, sydd yn cael ei werthfawrogi fwy fwy yn ddiweddar, yw natur dawel a digynnwrf Llŷn, ia "*Lle i enaid gael llonydd*" fel y dywedodd T. Glynne Davies. Mae natur llonydd a di-lygredd yr ardal yn sicr wedi cyfrannu at y cyfoeth naturiol geir yma, ac at barhad llawer o rywogaethau a ystyrir bellach yn brin yn ynysoedd Prydain.

Ceir amrywiaeth eang iawn o gynefinoedd yma sydd, yn ei dro, yn adlewyrchiad o dirwedd ac arfordir amrywiol yr ardal. Mae sawl math o gynefin arfordirol, gan gynnwys clogwyni creigiog a phriddog, llethrau, traethau a thwyni tywod. Oherwydd ei thirlun gwledig ac arfordir amrywiol mae yn gartref i amrywiaeth helaeth o adar tir ac adar y môr, gan gynnwys gwenoliaid y glennydd a rhai rhywogaethau prin megis y frân goesgoch, a ddefnyddir fel logo'r AHNE.

Mae Ynys Enlli o fewn ffiniau'r dynodiad hefyd wrth gwrs, ac mae oddeutu 2,500 o adar drycin Manaw yn nythu yma. Gwelir hefyd y crëyr glas, yr hebog tramor, tinwen y garn, teloriaid a'r dylluan fach, yn ogystal ag adar môr fel yr gwylog, y llurs a'r fulfran werdd. Mae Enlli hefyd yn safle ymchwil pwysig gan ei bod ar lwybr ymfudo

llawer o adar, a modrwyir miloedd ohonynt yno bob blwyddyn. Mae'n ymddangos bod Enlli ar lwybr sawl gwahanol fath o bererindod!

Mae rhostiroedd yn nodwedd amlwg a phwysig yn Llŷn ac mae rhostir gwlyb, sych, isel ac arfordirol i'w cael yma. Maent yn hafan i fywyd gwylt, ond hefyd yn bwysig ar lefel hanesyddol, diwylliannol ac fel adnodd hamdden. Maent yn bwysig mewn cyd-destun Cenedlaethol ac Ewropeaidd, oherwydd bellach dim ond 0.3% o arwynebedd y DU sydd yn rhostir isel. Oherwydd

arbenigrwydd a phrinder y rhostiroedd, a'r ffaith eu bod yn nodwedd amlwg yn Llŷn, datblygwyd prosiect Cadw'r Lliw yn Llŷn i adfer a rheoli prif rhostiroedd yr ardal.

Mae'r môr o amgylch Llŷn yn gynefin i sawl creadur, ac nid anghyffredin ydi gweld dolffiniaid Risso a llamhidyddion harbwr yn y dyfroedd. Mae'r Morloi llwyd i'w gweld yn magu yma yn flynyddol hefyd. Dyma ardal sy'n falch o'i hiaith a'i diwylliant, ac sydd wedi sbrydoli beirdd a llenorion lu.

Er mwyn atgoffa a chodi ymwybyddiaeth am rai o rinweddau un o fannau mwyaf heddychlon a phrydferth Cymru, mae'r Uned AHNE yn trefnu rhai digwyddiadau yn ystod 2006 i gyd fynd â'r hanner can mlwyddiant. Bydd y rhain yn cynnwys:

- **Cyfres o sgysiau ar wahanol bynciau**
- **Teithiau cerdded amrywiol**
- **Sesiynau hyfforddi/gwybodaeth**
- **Cystadleuaeth tynnu lluniau**

Hefyd bydd y Gymdeithas tros Ardaloedd o Harddwch Naturiol yn cynnal rhai digwyddiadau trwy Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i ddathlu pen-blwydd cenedlaethol yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Am ragor o fanylion am y digwyddiadau, cadwch lygaid ar ein tudalen 'newyddion a digwyddiadau' ar www.gwynedd.gov.uk (chwiliwch am AHNE) neu cysylltwch a'r Uned:

UNED AHNE LLŷN

**Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth
Cyfadran Amgylchedd
Cyngor Gwynedd
Swyddfa Ardal Dwyfor
Pwllheli
Gwynedd
LL535AA**

Ffôn: **01758 704155/176**

Ebost: **AHNELlynAONB@gwynedd.gov.uk**



Yn wyn i gyd neu'n rhannol wyn – Yr albino, a diffyg lliwiau ym myd adar yng Nghymru

Dafydd Guto Ifan

Gall 'albiniaeth' ddigwydd ymhlith plant dynol, creaduriaid, ymlusgiaid, cregyn ac adar, a gall ddigwydd hefyd yn deuluol, o un genhedlaeth i'r nesaf.

Nis gwn os mai T.G. Walker oedd y cyntaf i ysgrifennu am y cyflwr dan sylw yn y Gymraeg, ond y mae'n werth dyfynnu, a chymryd sylw o'r hyn sydd ganddo i'w ddweud yn *Albino, Y Cymro, Awst 19eg, 1949*, t.5, ble y mae'n cyfeirio at dderbyn sawl llythyr gan ddarllenwyr, yn crybwyll gweld brain a chanddynt glytiau o blu gwynion ar eu cyrff, yn ogystal a mweilch yn wyn trostynt, neu o leia'n frith.

'Brain o bob math a mwyalchod yw'r adar amlaf dan yr aflwydd...rhai duon...nid oes liw du yng nghannwyll ei llygaid...mae'r lliw du bob amser yn cadw goleuni draw.'

Disgrifir hyn i gyd ganddo fel *diffyg lliw*, neu *absenoldeb lliw* –

'Rhyw absenoldeb cemegol sydd wrth wraidd yr anhwyldeb.'

Ceir ymdriniaeth o'r cyflwr gan Ted Breeze Jones yn *Seiat yr Adar*, 1958 t.58 – a dyfynnaf –

'Ebe un o Lanfair ym Muallt – "Bum a'r plant am dro, a thynnodd un fy sylw at fwyalchen wen. Pa mor gyffredin ydynt, a phaham mae'r plu yn wyn?"

Dyma ateb Ted –

"Bydd plu gwynion i'w canfod yn bur gyffredin ar adar, yn enwedig y rhai

tywyll, fel y brain, y ddrudwen a'r aderyn du pigfelen (mwyalchen). Tueddwn i alw pob aderyn a chanddo blu gwyn yn albino, ond nid yw hyn yn wir ar bob achlysur. Yn yr albino, mae diffyg lliwiau, hyd yn oed yn y llygaid, sy'n ymddangos yn binc, a bernir fod y gwendid hwn yn cael ei etifeddu. Gan amlaf, nid adar claerwyn a welir, ond adar a chanddynt ychydig o blu gwyn. Gwelir diffyg arall ambell dro sy'n peri i blu aderyn fod yn wyn, neu'n olau, a hynny'n cael ei achosi gan brinder lliwiau yng nghyfansoddiad yr aderyn. Ceir enghreifftiau o ddrudwennod yn gwisgo plu browngoch, plu llwytaidd neu arian a gwelir ambell aderyn claerwyn. Drwy gynnal arbrofion, profwyd bod diffyg bwydydd arbennig yn peri i blu mweilch a bronfraith droi'n olau. Ond drwy eu porthi a'r bwyd diffygiol, doed a'r lliwiau yn ôl i'w plu."

Gyda'r blynyddoedd cafwyd bedair enghraifft glasurol, a hynny o'r adar a gyfrifid yn rhannol wyn, neu'n albino, ar fferm Neuadd Glasgoed, Llanrug sef paun, mwyalchen a gwennol. (*GWELER ATODIAD)
Yr hyn a ddaw i' amlwg ydyw nad oes brinder bwyd yn y cynefin a enwyd. Fferm fagu gwartheg ydyw, a gwelwyd yr adar a enwyd yn hedfan neu'n cerdded hyd y buarth ac yn mynychu'r adeiladau a'r caeau

cyfagos. Yn achos y fwyalchen, cofnodwyd ei bod yn hedfan i erddi maes carafannau gerllaw. Gwelwyd hi fwy nac erioed yn ystod y tymor nythu rhwng 2002-2004. Yr hyn sy'n fwy arwyddocaol fyth ydyw fod mwyelch yn hedfan o un cwr o'r wlad i'r llall. Tybed mai dechreuad y fwyalchen rhannol wen hon oedd nid fferm neuadd Glasgoed, ond gwlad arall ble nad oedd bwyd digon

maethlon ar ei chyfer? Digon posib yn wir!

Yn achos y peunod gellir tybio mai mewn-fridio a berai'r abnormalrwydd ac yn gyfrifol am gynhyrchu plu gwynion- diffyg genetegol felly. Bu'r peunod yma dros ugain mlynedd ran amser ac ni chyflwynwyd ceiliog na ieir o dylwyth arall i blith yr hen stoc!

Mae'r wennol yn ddiddorol. Albino? Mae' posibiliadau'n lluosog!

Rhai termau eraill...

Erythaeth – cochni; mwy o liw coch nag sy'n arferol ym hlu'r aderyn.

Lewistig – lliw mel; y lliwiau ym mhlu'r aderyn yn ymddangos fel petaent wedi pylu a gwelwi.

Melanaeth – gor-dywyllu; gormodedd o liw tywyll yng nghelloedd lliw'r aderyn, gan effeithio ar liw ei blu.

Xanthochroaeth – melynnder; mwy o liw melyn nac sy'n arferol ym mhlu'r aderyn.

(Difyr oedd clywed sôn ar Galwad Cynnar, fore dydd Sadwrn yr 11fed o Chwefror am fwyalchen rannol albino – benwyn – yr oedd Gerallt Pennant a Russel Sharpe wedi ei gweld yng ngerddi Portmeirion yr wythnos honno. Yn wir, bu rhai o aelodau'r Gymdeithas a gymrodd ran yn rhan gyntaf arolwg adar Portmeirion yn nes ymlaen y bore hwnnw yn ddigon ffodus i'w gweld hefyd! GOL)

Dyma flas o ganlyniadau ymchwil Dafydd Guto ar y pwnc hyd yma, o A – G. Bydd yr ail ran yn dilyn yn rhifyn 8 Llygad Barcud yr haf hwn –

Enw'r aderyn	Ble y'i gwelwyd	Pryd y'i gwelwyd	Nodweddion	Ffynhonell
Aderyn to	Talybont, Brycheiniog	1897	Brych-frith o ran lliwioau ei blu	TBOB t59
Aderyn to	Tŷ Croes, Ynys Mon	Medi 1990	Rhannol wyn	Cummings yn HEF t.146
Aderyn to	Y Fenni, Gwent	Haf 1966	Pedwar achos o felanaeth	TBOG t 135
Adar to	Gwent	1960au-1970au	Rhai albino	TBOG t 135
Barcud	Fferm Gigrin, Rhaeadr	2003-2005	Rhan fwyaf o'r plu yn wyn	www.gigrin.co.uk/

Brân Dyddyn	Aberyscir, ger Aberhonddu	1884	Albino, (Saethwyd)	TBOB t33
Brân Dyddyn	Coed Mawr, Aberhonddu (3-4 milltir o Abercysir)	1884 (tri mis wedi saethu'r uchod)	Albino (Saethwyd gan yr un dyn!)	TBOB t 34
Bronfraith	Gwent	1960au-1970au	Rhannol wyn	TBOG t117
Brych y coed	Abergwesyn	16eg Tachwedd 1961	Hufennog a rhai plu lliw arian	PJ Panting yn NIW 8/1 Haf 1962 t.35
Brych y coed	Gwent	1960au-1970au	Albino	TBOG t117
Coegylfinir	Tywyn	19eg Tachwedd 1889	Albino. (Saethwyd)	HEF t369
Corhwyaden aden werdd	Aber yr afon Gann, Penfro	26-27ain Ebrill 1977	Ceiliog - lliwiau ar goll	J W Down yn NIW 16/1 Mawrth 1978
Cornchwigen	Aberystwyth	Ebrill 1904	Rhannol wyn. Adennydd yn dduon	Hutchings yn HEF t.333
Crec yr eithin	Churchstoke, Maldwyn	Mai 1907	Adennydd yn glaerwyn	Y Parch W R Jones yn HEF t78
Cwtiad torgoch	Sandy Heaven, Penfro	15fed Hydref, 1974	Oedolyn hufennog drosto i gyd.	T A W Davin yn NIW 14/2 Mawrth 1975 t207
Drudwen	Penybont	Hydref 1901	Dim manylion llawn ond dywedir mai aderyn gwyn ydoedd	R Roberts HEF t170
Drudwen	Pool Quay, Trefaldwyn	Hydref 1902	"	HEF t170
Drudwen	Bangor	1890	"	"
Drudwen	Tywyn	1891	"	"
Drudwen	Mewn cae ar fferm Tal y bryn, Buckland	1896	Albino: 'yn glaerwyn drosto'.	TBOB t39
Drudwen	Parc cul, Brycheiniog	Nis dyddir ond o bosib cyn 1899	Plu lliw gwinau golau. Saethwyd yr aderyn hwn.	"
Drudwen	Llanllugan, Powys	Nis dyddir	Rhannol wyn	L F Fort yn HEF t170
Drudwen	Bangor	Ionawr 1904	Albino: 'fel petae wedi ei ddal wrth ei big mewn llefrith'.	L F Fort yn AHTTVFNW t 37
Drudwen	Bodorgan, Ynys Môn	22ain Tachwedd 1964 - 22ain Mawrth 1965	Gwelw. Cynffon efo lliw gwinau golau, a pheth gwynder yng ngweddill y plu.	NIW 9/4 Gaeaf 1965 t 236
Ehedydd	Caergybi	11eg Medi 18897	Rhannol wyn, oddi tano'n felyn. (Saethwyd)	T R Evans yn HEF t190

Ehedydd	Seland	Nis dyddir	Hufennog	Stivens yn HEF t 190
Ffesant	Ger Bethel, Arfon	1990au	Albino	Ar lafar.
Giach	Llanddwyn	1882	Albino. Aderyn ifanc.	L F Fort yn HEF t 345
Grugiar ddu	Cefn Creian, ardal Doigellau	Awst 1895	Gwryw ifanc. Brith	AHTTVFNW t 57
Grugiar goch	Plas Rhug, Corwen	Nis dyddir	Dim manylion	C H Wynn yn HEF t310
Grugiar goch	Moel Famau	Nis dyddir	Un tywyll, anhwylder ar yr iau (anfonwyd i Amgueddfa Caer)	HEF t 310
Gwennol	Bae Colwyn	Gorffennaf 1904	Hufennog	Dr W B Russell yn HEF t135
Gwennol	Pont Ddu ger Llanybri, Caerfyrddin	Awst 1964	Albino	J Poynton yn NIW 9/2 Gaeaf 1964 t89
Gwennol	Neuadd Glasgoed, Llanrug	Haf 1976	Albino	Ar lafar
Gwennol Bondo y	Plas Rhug, Corwen	Nis dyddir	Lliw gwinau golau	Yng nghasgliad perchennog y plasyd – HEF t137
Gwennol Bondo y	Llandderfel	1891-1892	Albino	HEF t137
Gwennol Bondo y	Corwen	1894	Rhannol wyn, a rhannau yn winau golau	H Stansfield yn Field, hydref 1894, HEF t 137
Gwennol Bondo y	Bannau Brycheiniog	1986	Albino	F M Slater – ar y We
Gwenoliaid duon	Lôn gefn, Y Trallwng	1884-1888	Albino, rhai ohonynt yn rhannol wyn	HEF t.194
Gwennol ddu	Ar yr afon yn Ninas, Brycheiniog	1897-1889	'Yn wyn i gyd, arwahan i'w hadennydd, mymryn o'i gynffon a rhan bychan o'i ben'	TBOB t68
Gwennol ddu	Lôn gefn, Y Trallwng	1887	Un yn albino, un arall yn ddu efo pen gwyn	Byegones 1887 t362 HEF t 194 (Yr un un ag uchod tybed? GOL)
Gwennol ddu	Plasyd Rhug, Corwen	Nis dyddir	Albino	HEF t194
Gwennol glennydd y	Llyn Llangors, Brycheiniog	11eg Awst 1890	Albino	TBOB t 68
Gwybedog brith	Llanegryn, Meirionnydd	1966	Nid oedd duwch ar ei ben na'i gefn	R L Vernon yn NIW 10/2 Hydref 1966 t 96
Gwylan gefnddu leiaf	Marloes, Penfro	Gorffennaf 25ain 1964	Y pen yn llwyd, adennydd du.	D G Wooton a J Williams yn NIW

			pig melyn efo smotyn coch, coesau melyn	9/2 Gaeaf 1964 t 87
Gylfinir	Parc Penrhos, Caergybi	1883 - 1888	Albino	HEF t368
Gylfinir	Parc Penrhos, Caergybi	Hydref - Gwanwyn 1887-1888	Albino	Field 3ydd Tachwedd 1888, hefyd HEF t368
Gylfinir	Môn	1889	Albino a dau frith	A P Priestley yn HEF t368
Gylfinir	Tywyn	1896 - yno dwy flynedd.	Albino (Saethwyd)	HEF t368
Gylfinir	Ger Glandyfi	13eg Chwefror 1962	Rhannol wyn, clytiau gwinau ar ei gefn	R L Vernon yn NIW 8/2 Gaeaf 1962 t 80
Gylfinir	Sandy Haven, Penfro	11eg Ionawr 1975	Tywyll	T A W Davis yn NIW 15/1 Mawrth 1976 t 37

Byrfoddau –

AHTTVFNW – Forrest, H E - A Handbook to the Vertebrate Fauna of North Wales 1919

HEF – Forrest, H E - The Vertebrate Fauna of North Wales 1907

JB – Barnes, John – The Birds of Caernarfonshire 1997

NIW – Nature in Wales (Cylchgrawn)

TBOB – Phillips, E - The Birds of Breconshire 1899

TBOG – Ferns, P N et al – The Birds of Gwent 1977

[Os oes gennych chwi enghreifftiau eraill i'w hychwanegu at yr uchod – gadewch inni wybod. GOL]

'Un wennol ni wna wanwyn'

Braf oedd gweld y gwenoliaid cyntaf yn cyrraedd ynte? Pasio drwodd am y gogledd oedd y rhai cyntaf wrth gwrs, ond ymhen hir a hwyr, arhosodd rhai hefyd, ac erbyn hyn maent bron i gyd wedi cyrraedd.

Mae'r wennol yn un o'n hadar mwya' poblogaidd ac annwyl ni yndydi hi? – am ei bod hi â chyswllt mor agos â phobl y mae hyn yn ol pob tebyg – ac yn arwydd mor bendant o'r haf. Ond mae 'na wahanol fathau o wenoliaid – y wennol gyffredin hefo'r gynffon fforchog hir, y lliw coch dan ei gên ac yn nythu mewn beudai; gwennol y bondo sy' efo'r clwt gwyn ar ei chrwmp ac yn nythu dan y bondo – lle arall! A gwennol y glenydd ydi'r un fach frown sy'n nythu mewn clogwyn pridd neu dorian afon. Yna, mae'r wennol ddu, neu'r sgrechiwr. Dydy hon ddim o'r un teulu a'r wenoliaid go iawn, w'chi, ac mae hi'n cyrraedd yn hwyr – ganol Mai, ac yn gadael yn gynnar – adeg y Steddfod, ddechrau Awst.

Llythyr at y golygydd – Bachu'r ehedydd di blu

6 Parc Kingrosia
Clydach
Abertawe

Annwyl Olygydd,

Parthed erthygl Tom Jones (*Llygad Barcud* rhif 6) ynglŷn â'r 'Ehediad di-blu'. Cyfeiriodd Tom at ddal ystumod ar ddamwain wrth bysgota gyda'r nos gyda phlu. Yn ardal yr afon Dwyfor mae'n debyg mai ystumod pedol lleiaf (*Rhinolophus hipposideros*) oedd yn cael eu dal. Tra ar wyliau yn Iwerddon bum mlynedd yn ôl (yn ardal Corc) buais yn siarad gyda physgotwr lleol. Yn ôl yr hyn a ddywedodd roedd hi'n eithaf cyffredin i fachu ystum tra'n pysgota'r nos. Yn ei brofiad o, y tueddiad oedd i fachu ystum y dŵr (*Daubenton's bat – Myotis daubentonii*). Fel ym mhrofiad Tom byddai'r ystumod bron heb eithriad wedi eu bachu yn yr adain neu'r gynffon. Yn ôl yr hyn a ddywedodd y gŵr yma, y rheswm am hyn oedd fod ystumod yn gyffredinol yn defnyddio'r adenydd a'r gynffon i 'sianelu'r pryf tua'r geg. Gan nad yw pluen bysgota mor hyblyg â phryf naturiol mae'r bachyn yn bachu i'r rhan hwnnw o'r corff y daw i gysylltiad ag o gyntaf. Yn achos ystum y dŵr mae ganddo draed mawr o'u cymharu â rhywogaethau eraill o ystumod ac mae'r gallu ganddo i ddal pryfed gyda'i draed a'u trosglwyddo i'w geg tra'n hedfan. Ym mhrofiad y physgotwr o Gorc nid oedd erioed wedi gweld ystum wedi ei fachu yn ei droed. Ond pam hynny? Tybed a yw'r ystum yn defnyddio'i adenydd i sianelu'r pryf tua'i draed fel yn achos y geg mewn rhywogaethau eraill?

Cyfeiriodd Tom hefyd at 'ddannedd miniog' yr ystum. Yn ystod 2005 cyhoeddwyd taflen yn rhybuddio pysgotwyr o beryglon gafael mewn ystum wrth geisio eu rhyddhau o'r bachyn. Cyhoeddwyd y daflen yn dilyn profion ar gorff ystum a ddarganfuwyd yn farw ar gamlas Bury a Bolton ger Radcliffe. Mae'n debyg bod y profion wedi dangos bod yr ystum yn cario'r gynddaredd (rabies). Rhybuddiwyd pysgotwyr yn y daflen ;

'You could catch rabies from contact with an infected bat'. [****Rhodri – rhoi'r dyfyniad mewn Italics**]

Mae'n amlwg fod peryglon mawr ar lan yr afon liw nos, nid yn unig i'r ystum druan ond hefyd i greaduriaid fel Tom Jones!

Cofion,

Dewi Lewis.

[*Fel un gafodd frechiad ar gyfer cadw'r gynddaredd draw (gan fy mod yn achlysurol yn dod ar draws ystumod yn fy ngwaith, a'i bod yn ofynnol bellach i unrhyw un sy'n gweithio neu yn debygol o ddod i gysylltiad gydag ystumod gael brechiad o'r fath) gallaf eich sicrhau mai profiad go annifyr fyddai cael y profiad, heb sôn am gael eich brathu! Er mai prin iawn yw'r dystiolaeth am ystumod yn Ynysoedd Prydain yn cario'r gynddaredd – gofal piau hi, a gwell yw peidio a chyffwrdd ag unrhyw ystum y dowch ar ei draws. Y cyngor swyddogol gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yw i adael yr ystum ble mae, a ffonio'r CCG, er mwyn iddynt drefnu i weithiwr ystum trwyddedig ddod i nol y creadur anffodus. Yn aml iawn, gwneud dim yw'r gorau, a gwnaiff yr ystum ddod ato'i hun gyda hyn, a hedfan i ffwrdd wrth ei bwysau. Yn aml ar ddechrau'r haf ystumod ifanc fydd yn syrthio o'u clwydfannau, ac felly gadael iddynt fod yw'r peth gorau – ac os oes gennych gi neu gath ceisiwch eich gorau i'w cadw oddi wrth yr ystum. (GOL)]*

Cymdeithas Ted Breeze Jones

- er budd adar a byd natur



Rhaglen Weithgareddau Gwanwyn 2006

Mai 4ydd, 2006 – Sgwrs: Dipyn o Dderyn? Dewi Lewis, Y Ganolfan, Porthmadog 7.30yh

Mai 6ed, 2006 – Arolwg o Adar y Gwanwyn ym Mhorthmeirion. Trefnwyr: Twm Elias, Dewi Lewis a Rhodri Dafydd. Cyfarfod: Maes Parcio Portmeirion am 10.30yb

Dechrau Mehefin - Y Troellwr Mawr – Taith maes hwyrol i weld yr aderyn rhyfedd hwn: dyddiad ym Mehefin i'w drefnu. Cysyllter â Rhodri Dafydd am fwy o wybodaeth. (Rhif ffôn isod)

Mehefin 24ain – Taith i Drwyn Cilan. Gweithgaredd ar y cyd rhwng Cymdeithas Ted Breeze Jones a Chyngor Gwynedd i ddathlu 50fed penblwydd

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Pen Llŷn

Arweinydd: Twm Elias. Cyfarfod: Maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Mynydd Cilan SH 295247 am 10.30 y.b.

Awst 19eg – Taith i 'Birdfair', Rutland Water. Cysyllter a Rhodri Dafydd am fwy o wybodaeth.

LLYGAD BARCUD - Cylchlythyr Cymdeithas Ted Breeze Jones

Rhif 7 – Pasg 2006

Golygyddion –

Rhodri Dafydd (CCGC) a Twm Elias (PTyB)

Cyfranwyr –

Twm Elias (Plas Tan y Bwlch), Dewi Lewis, Dafydd Guto, Gwilym Tudur, Huw Dafydd Jones, Rhodri Dafydd

Pob llun – hawlfraint yr awdur oni nodir yn wahanol.

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

Llywydd –

Iolo Williams

Cadeirydd y Gymdeithas a Golygydd Ymgynghorol *Llygad Barcud*–

Twm Elias, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd LL41 3YU, (01766) 772 610

Trysorydd –

Brian Paul, Tŷ Fry, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6RT, (01766) 770 500

Ysgrifennydd a Golygydd *Llygad Barcud*–

Rhodri Dafydd, 2 Tŷ'n Ddôl, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7TN, (01678) 540 545

Ysgrifennydd Aelodaeth –

Anwen Breeze Jones, Tan y Deri, Bryn Eithin, Llandecwyn, Gwynedd LL47 6YF, (01766) 770 833

Am fwy o wybodaeth a ffurflen ymaelodi â'r Gymdeithas cysylltwch âg Anwen Breeze Jones.

Croesawir llythrau, cwestiynau, newyddion ac ati ar gyfer y rhifyn nesaf.

Anfoner unrhyw ddeunydd at yr Ysgrifennydd cyn diwedd mis Mehefin os gwelwch yn dda